



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Rhaglenni

Gradd
Ôl-raddedig

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture



Welsh School of Architecture

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Fe wnawn ni eich helpu chi i ddatblygu agwedd ymchwilgar a'r ymwybyddiaeth feirniadol sydd ei hangen i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn yr amgylchedd adeiledig. Ein nod yw sicrhau bod gennych chi'r sgiliau i luniadu ac adeiladu drwy gydol eich gyrfa yn y dyfodol, yn ogystal â meithrin cysylltiad parhaol â'r Ysgol, y Brifysgol a dinas hyfryd Caerdydd.

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Prifysgol Caerdydd

Adeilad Bute

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd CF10 3NB

Ffôn: + 44 (0) 29 2087 4430

ebost: archi-reception@caerdydd.ac.uk

www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

[linkedin.com/edu/welsh-school-of-architecture-cardiff-university](https://www.linkedin.com/edu/welsh-school-of-architecture-cardiff-university)

twitter.com/WSofArchi

[facebook.com/welshschoolofarchitecture](https://www.facebook.com/welshschoolofarchitecture)

[instagram.com/WSofArchi](https://www.instagram.com/WSofArchi)

Rydym o'r farn bod angen cynnal astudiaeth a gwaith ymchwil arbenigol er mwyn llywio'r cynlluniau sy'n gwneud y byd yn lle gwell. Mae ein graddedigion yn cynnig manteision i'r byd drwy'r wybodaeth a'r sgiliau y maen nhw'n eu dysgu yn yr Ysgol.

Maen nhw'n ein gadael gydag ymagwedd chwilfrydig a'r gallu i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn yr amgylchedd adeiledig, wedi'u harfogi ag ymagwedd gyfunol at y pwnc a fireiniwyd gan drafodaeth fywiog a chyfleoedd i feddwl yn feirniadol. Rydym yn ceisio rhoi cysylltiad cadarn iddynt â'r Ysgol, y Brifysgol a dinas Caerdydd.



Ymwadiad:

Bydd y llyfryn hwn yn rhoi rhagor o fanylion i chi am ein rhaglenni. Rydyn ni'n gobeithio y bydd yn rhoi mwy na dim ond blas i chi o'r hyn sydd gennym i'w gynnig. Fodd bynnag, rydyn ni bob amser yn barod iawn i ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych, dros y ffôn neu drwy ebost, neu pan ddewch i ymweld â Chaerdydd. Mae'r manylion cyswllt priodol ar ddiwedd y llyfryn hwn.

Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylch derbyn Mynediad 2020 ac mae'n gywir pan aeth i'r wasg ym mis Ionawr 2019. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r prospectws hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan [www.caerdydd.ac.uk] cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Os bydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, rhwch flaenoriaeth i gynnwys y wefan, sy'n cynrychioli'r modd yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Bydd unrhyw le a gynigir i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn amodol ar delerau ac amodau, sydd i'w gweld ar ein gwefan [www.caerdydd.ac.uk/offertterms]. Fe'ch cyngorir i'w darllen cyn gwneud cais. Mae'r telerau a'r amodau yn nodi, er enghraifft, pryd gallwn wneud newidiadau i'ch cwrs dewisol neu i'r rheoliadau i fyfyrwyr. Felly, mae'n bwysig eich bod yn eu darllen ac yn eu deall.

Os na allwch gael gafael ar wybodaeth ar-lein, cysylltwch â ni:

Ebost: enquiry@caerdydd.ac.uk

Ffôn: +44 (0)29 2087 4455

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Cynnwys

01 Croeso

03 Cyflwyniad i Ysgol Pensaernïaeth Cymru

05 Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

07 MA Dylunio Pensaernïol

09 MA Dylunio Trefol

11 Gradd Meistr mewn Gweinyddu Dylunio (MDA)

13 MSc Gwerthusiad Uwch o Berfformiad Adeiladau

15 MSc Dulliau Cyfrifiadurol mewn Pensaernïaeth

17 MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

19 MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy

21 MSc Mega-Adeiladau Cynaliadwy

23 Dip. Ôl-radd mewn Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

25 Rhaglenni ymchwil ôl-raddedig

27 Ein cyfleusterau

29 Byw yng Nghaerdydd

31 Meini prawf derbyn

Croeso

Rydym yn frwd dros greu amgylchedd adeiledig sy'n gwella bywydau pobl, heb ddinistrio'r blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Os byddwch chi'n astudio yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru fe fyddwch chi'n rhan o sefydliad sydd wedi cyflwyno rhaglenni

meistr a graddau ymchwil (PhD) arbenigol ers dros deng mlynedd ar hugain, a rhaglenni pensaernïaeth ers bron i ganrif.

Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i gynhyrchu graddedigion hynod gyflogadwy sy'n gallu cymhwyso arbenigedd, manwl gywirdeb a dychymyg er mwyn datrys heriau sy'n ymwneud â phensaernïaeth a dylunio ledled y byd.

Fe wnawn ni eich helpu chi i ddatblygu agwedd ymchwilgar a'r ymwybyddiaeth feirniadol sydd ei hangen i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth yn yr amgylchedd adeiledig. Ein nod yw sicrhau bod gennych chi'r sgiliau i luniadu ac adeiladu drwy gydol eich gyrfa yn y dyfodol, yn ogystal â meithrin cysylltiad parhaol â'r Ysgol, y Brifysgol a dinas hyfryd Caerdydd.

Dros y tudalennau canlynol, byddwch yn cael rhagor o wybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig a addysgir a'r graddau ymchwil rydym yn eu cynnig. Byddwn hefyd yn eich cyflwyno i Gaerdydd, prifddinas fywiog Cymru, ac yn rhoi blas i chi o sut beth yw astudio yn y Brifysgol fel myfyriwr ôl-raddedig.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn penderfynu ymuno â'n cymuned amrywiol ac ysgogol o fyfyrwyr a staff yn yr ysgol. Cysylltwch â'n tiwtoriaid derbyn cyfeillgar ar bob cyfrif os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein rhaglenni, a byddant yn barod i roi cyngor ac arweiniad i chi.

Yr Athro Chris Tweed

Pennaeth yr Ysgol



Cyflwyniad i Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Mae Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn rhan o ganolfan ddinesig Edwardaidd Caerdydd, ger canol y ddinas a rhyw filltir o Fae Caerdydd – un o brosiectau mwyaf Ewrop o ran ailddatblygu ardal dociau.

Fe'i sefydlwyd ym 1920, ac mae gennym hanes o ddenu myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig o bedwar ban byd sy'n elwa ar y profiad o astudio a byw ym mhrifddinas fywiog Cymru.

Mae gennym enw rhagorol yn rhyngwladol fel canolfan ar gyfer ymchwil i'r amgylchedd adeiledig a dylunio. Mae'r Ysgol yn cyrraedd y 46eg safle yn Safleoedd y Byd QS 2018 ac yn gyson ymhlith y prifysgolion pensaernïaeth uchaf yn nhablau' cynghrai y DU.

Mae ein lleoliad ym mhrifddinas Cymru yn cynnig mynediad hawdd i gyd-destunau ffisegol, cymdeithasol a diwylliannol amrywiol yr ydym yn eu harchwilio yn ein haddysgu a'n gwaith ymchwil. Rydym yn gweld ein cyfraniad at fywyd diwylliannol Cymru, ac at ddinas Caerdydd, fel rhan sylweddol o'n hunaniaeth. Fodd bynnag, mae gennym gysylltiadau ymchwil cynhyrchiol gydag elfennau ymarfer, diwydiant a phrifysgolion mewn gwledydd eraill. Mae pob un o'n myfyrwyr, p'un ai ydynt yn dysgu o bell neu yng Nghaerdydd, yn elwa ar y cysylltiadau hynny.

Mae ein myfyrwyr yn hynod gyflogadwy, ac mae mawr alw amdanynt gan bractisau ledled y byd. Yn ôl yr arolwg diweddaraf, yn 2015/16, roedd 96% o'n myfyrwyr mewn swydd neu'n gwneud astudiaeth bellach ymhen chwe mis ar ôl cwblhau eu cwrs.*

“Dechreuais fy rhan gyntaf yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, ac nid wyf wedi edrych yn ôl ers hynny, gan fynd ymlaen yn syth i ran 2 a rhan 3. Gwnes i fwynhau fy mlynnyddoedd yn astudio yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, ac rwy’n ddiolchgar o gael astudio mewn sefydliad pensaernïaeth mor uchel ei barch a’i fri. Rwyf wrth fy modd yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd, sydd â chymaint o atgofion hyfryd ac sy’n fy atgoffa o’r gwaith caled rwyf wedi gorfod ei wneud dros y blynnyddoedd er mwyn cyrraedd y man yr ydwyf heddiw.”

Victoria Savage | Pensaer, Scott Brownrigg



Rhaglenni Ôl-raddedig a Addysgir

Rydym yn cynnig amrywiaeth o raglenni a addysgir sy'n arddangos cryfderau'r Ysgol mewn dylunio pensaernïol, gwyddoniaeth bensaernïol, gweinyddu dylunio ac arferion proffesiynol, dyniaethau pensaernïol, cadwraeth adeiladu cynaliadwy, gwerthuso perfformiad adeiladu, dylunio amgylcheddol a dylunio trefol.

Mae ein rhaglenni amrywiol wedi eu cysylltu gan nod i ddatblygu'r sgiliau allweddol fydd eu hangen ar fyfyrwyr i arbenigo yn eu maes diddordeb a gwella eu cyfleoedd gyrfa. Drwyddynt, bydd myfyrwyr yn caffael gwybodaeth newydd ond hefyd y gallu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gweithio ar flaen y gad yn eu disgyblaeth.



Mae ein rhaglenni wedi eu llunio i fod o werth i'r rhai sydd am gynnal astudiaeth arbenigol ar ôl gradd israddedig. Byddant hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn ymwneud â chynllunio, rheoli, gwella a gwerthuso'r amgylchedd adeiledig i ddatblygu sgiliau newydd. Mae llawer o'n rhaglenni yn cynnig dewisiadau astudio rhan-amser neu ddysgu o bell, gan eu gwneud yn addas ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno parhau i ymarfer tra'n astudio.

Byddant hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn ymwneud â chynllunio, rheoli, gwella a gwerthuso'r amgylchedd adeiledig i ddatblygu sgiliau newydd ynghylch ein lleoliad, diwrnodau agored, cyfleoedd cyllido a phrosesau derbyn.

Juliet Davis

Cyfarwyddwr Rhaglenni Ôl-raddedig a addysgir

MA Dylunio Pensaernïol

Mae'r cwrs MA llawn-amser hwn dros gyfnod o flwyddyn mewn Dylunio Pensaernïol wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n chwilio am raglen ôl-raddedig gyfoethog a diddorol sy'n canolbwyntio ar ddylunio, ond nad ydynt am gymhwyso'n bensaer cofrestredig yn y DU.

MA Dylunio Trefol

Byddant hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol sydd eisoes yn rhan o gynllunio, rheoli, gwella a gwerthuso'r amgylchedd adeiledig i ddatblygu sgiliau newydd.

Gradd Meistr mewn Gweinyddu Dylunio (MDA)

Nod y rhaglen hon yw rhoi i fyfyrwyr wybodaeth fanwl a dealltwriaeth o reoli ac agweddau cyfreithiol ddylunio, a'r sgiliau angenrheidiol i weinyddu'r gwaith o gaffael gwasanaethau dylunio a phrosiectau adeiladu yn llwyddiannus.

MSc Diagnosteg Adeiladau ar gyfer Perfformiad Ynni ac Amgylcheddol

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ynni a pherfformiad amgylcheddol adeiladau sy'n bodoli'n barod, gan integreiddio ffactorau technegol a dynol. Mae'n ymateb i'r angen i wella ansawdd amgylcheddau ac, ar yr un pryd, lleihau eu hallyriadau carbon deuocsid a'r ynni mae adeiladau yn ei ddefnyddio.

MSc Dulliau Cyfrifiadurol mewn Pensaernïaeth

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â'r galw am weithwyr creadigol proffesiynol sydd â sgiliau ym meysydd TG, saernïo digidol, meddalwedd efelychu, neu'r gallu i gynllunio dulliau datblygu meddalwedd penodol i ddatrys problemau dylunio unigryw.

MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

Mae'r rhaglen hon yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen i ddylunio amgylcheddau iach a chyfforddus mewn ac o amgylch adeiladau sy'n rhoi ychydig iawn o straen ar adnoddau byd-eang.

MSc Cadwraeth Adeiladau'n Cynaliadwy

Nod y cwrs hwn, sydd wedi ei achredu gan IHBC (Institute of Historic Building Conservation) ac wedi ei gymeradwyo gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain drwy gyfuno astudiaeth o gadwraeth treftadaeth gydag agweddau cynaliadwyedd.

MSc Mega-Adeiladau Cynaliadwy

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar egwyddorion cynllunio a dylunio mega-adeiladau'n gynaliadwy, a'i nod yw paratoi myfyrwyr i ymateb i'r heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hyn.

Dip.Ôl-radd mewn Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

Yn y rhaglen RIBA Rhan 3 hon, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r agweddau cyfreithiol ac economaidd ar ymarfer pensaernïol a chaffael gwaith adeiladu, a'r sgiliau perthnasol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer yn effeithiol wrth ddechrau ar yrfa ym maes pensaernïaeth.

MA Dylunio Pensaernïol

Mae'r cwrs MA amser llawn hwn dros gyfnod o flwyddyn mewn Dylunio Pensaernïol wedi'i anelu at fyfyrwyr sy'n chwilio am raglen ôl-raddedig gyfoethog a diddorol sy'n canolbwyntio ar ddylunio, ond nad ydynt am gymhwyso'n bensaer cofrestredig yn y DU.

Mae'r rhaglen hon yn rhannu llawer o elfennau dylunio ein rhaglen MARCH (Meistr mewn Pensaernïaeth/rhan 2), ond yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran y dewisiadau astudio, gan alluogi myfyrwyr i ddewis o blith amrywiaeth o fodiwlau sy'n adlewyrchu diddordebau ac arbenigedd ymchwil amrywiol yr Ysgol.

Yn y rhaglen, rhoddir pwyslais ar ymchwil wedi ei arwain gan ddylunio fel ffordd o fynd i'r afael â heriau byd-eang presennol. Mae gwneud gwaith ymchwil trwy ddylunio yn weithgaredd sy'n integreiddio'r broses greadigol o ddylunio â'r weithred o ymchwilio, fel bod modd iddynt lywio ei gilydd. Mae myfyrwyr yn archwilio problemau drwy wneud a phrofi cynigion dylunio sy'n cael eu llywio gan dadansoddi, cynsail a theori, gan felly gyflwyno a datblygu gwybodaeth gadarn.


Nodweddion y rhaglen:

- Mae'r rhaglen hon ar gael fel cwrs amser llawn dros flwyddyn.
- Ehangu eich sgiliau fel meddyliwr dylunio arloesol a blaengar drwy ddatblygu agenda ymchwil dan arweiniad dylunio drwy eich prosiectau dylunio a'ch traethawd hir ar ddylunio.
- Dysgu gan ymarferwyr dylunio gwobredig – mae dros 50% o'n haddysgu ar ddylunio yn cael ei wneud gan benseiri wrth eu gwaith.
- Mae'n berffaith i fyfyrwyr y mae'n well ganddynt ddull mwy ymarferol/ gweithredol tuag at addysgu drwy ein pwyslais ar archwilio drwy ddylunio.
- Cewch ddewis o amryw o fodiwlau dewisol i ychwanegu at eich dysgu ym meysydd sydd o ddiddordeb i chi, a datblygu sgiliau pwysig mewn gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar ddylunio.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a'r staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i: www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/course/architectural-design-ma





Strwythur:

Mae strwythur MA Dylunio Pensaernïol yn cwmpasu tri modiwl craidd, sy'n cael eu crynhoi fel a ganlyn:

ART701 - Ymchwil a Dylunio Pensaernïol - 60 credyd

ART703 - Dadansoddi Cynsail - 30 o gredydau

ART704 - Traethawd hir ar Ddylunio - 60 credyd

Mae'r MA Dylunio Pensaernïol yn cwmpasu chwe modiwl dewisol arall, fel a ganlyn:

AR3003 - Materion Pensaernïaeth Gyfoes - 10 credyd

ART802 - Dod o Hyd i Ffurf Cyfrifiadurol - 10 credyd

ART035 - Adeiladau Carbon isel - 10 credyd

ART041 - Cysur yr Hinsawdd ac Ynni - 10 credyd

ART702 - Technoleg Pensaernïol 3a - 10 credyd

***Modiwlau dewisol yn amodol ar gadarnhad ar gyfer 2019/20**

MA Dylunio Trefol

Nod y rhaglen MA Dylunio Trefol yw galluogi ymarferwyr ac ysgolheigion i drawsnewid y maes dylunio trefol drwy feddwl yn feirniadol ac ymarfer creadigol. Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar ddull trawsddisgyblaethol cynhenid sydd wedi'i wreiddio yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru a'r Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio.

Nodweddion y rhaglen:


- Cwrs amser llawn dros flwyddyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai hynny sydd â chefnidir ym maes pensaernïaeth, pensaernïaeth tirwedd, cynllunio trefol, datblygiad eiddo, peirianeg sifil, a disgyblaethau eraill megis cymdeithas trefol, economeg a gwleidyddiaeth.
- Wedi ei achredu gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (yr RICS) ac mae'n cael ei gydnabod gan Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (yr RTPI).
- Dysgu gyda staff academiaidd hynod llwyddiannus sy'n ymwneud yn lleol â Chaerdydd, yn genedlaethol â'r DU, ac yn rhyngwladol.
- Yn cael ei chynnal ar draws dwy ysgol - Ysgol Pensaernïaeth Cymru ac Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd - sydd ag enw da'n fyd-eang ac yn meddu ar adnoddau rhagorol, gan gynnwys llyfrgelloedd â chyflenwad da o adnoddau gyda mynediad at gyfnodolion a llyfrau rhyngwladol, a darlithoedd a symposia gan ymwelwyr o bedwar ban y byd.
- Mae prosiectau dylunio yn archwilio ac yn mynd i'r afael â materion hanfodol yn y ddinas gyfoes, gan gynnwys tai fforddiadwy, dyluniad isadeiledd gofod cyhoeddus, ymgysylltu â'r cyhoeddymgysylltu, trawsnewid trefol a meysydd eraill.
- Mae'r rhaglen yn elwa ar ei lleoliad yng nghanol Caerdydd – prifddinas fywiog a gwych i fyw ynddi Cymru, sy'n parhau i dyfu ac amrywio, a labordy rhagorol ar gyfer deall dylunio trefol.
- Mae teithiau maes i Lundain, i gyfandir Ewrop a'r Unol Daleithiau yn rhai o nodweddion presennol y rhaglen.

Pwnc trawsddisgyblaethol yw dylunio trefol, oherwydd nad yw'n ymdrin â meysydd proffesiynol megis pensaernïaeth, pensaernïaeth tirwedd, dylunio trefol a pholisi cyhoeddus yn unig, ond mae hefyd yn ymdrin â disgyblaethau megis gwleidyddiaeth drefol, economeg, cymdeithasol ac astudiaethau diwylliannol.

Mae'r rhaglen MA Dylunio Trefol yn cwmpasu trawsddisgyblaeth o'r fath yn llawn fel ffordd o ysbrydoli ei myfyrwyr i ymgysylltu ag ymarfer a gwaith ymchwil llwyddiannus. Mae gan ein graddedigion yrfaoedd llwyddiannus ym maes dylunio trefol, cynllunio trefol, datblygiad eiddo tiriog, sefydliadau ymchwil a'r byd academiaidd drwy ddilyn astudiaethau doethurol.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a'r staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i: www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/course/urban-design-ma



Strwythur:

Mae'r rhaglen yn cynnwys y modiwlau a addysgîr ac sy'n seiliedig ar ymchwil a ganlyn

DCPT771 - Meddylwyr Dylunio Trefol - 20 credyd

CPT852 - Sylfeini Dylunio Trefol - 10 credyd

CPT853 - Dulliau a Thechnegau Ymchwilio - 10 credyd

CPT897 - Rheoli Datblygu - 20 credyd

CPT910 - Stiwdio'r Hydref - 30 credyd

CPT911 - Stiwdio'r Gwanwyn - 30 credyd

CPT854 - Prosiect dylunio sy'n seiliedig ar ymchwil - 60 credyd

Gradd Meistr mewn Gweinyddu Dylunio (MDA)

Nod y rhaglen hon yw rhoi i fyfyrwyr wybodaeth fanwl a dealltwriaeth o reoli ac agweddau cyfreithiol ddylunio, a'r sgiliau angenrheidiol i weinyddu'r gwaith o gaffael gwasanaethau dylunio a phrosiectau adeiladu yn llwyddiannus.

Bwriedir i'r cwrs ddiwallu'r angen cynyddol am arbenigwyr ym maes rheoli dylunio, sy'n gweithio mewn ymgynghoriaethau, cyrff cleientiaid, cwmnïau contractio neu gwmnïau contractio arbenigol. Mae'n edrych ar bob cam cynhyrchu adeilad, o'r dechreuadau a'r camau dichonoldeb hyd at y cwblhau, y trosglwyddo ac ar ôl meddiannu, gan ganolbwyntio ar heriau rheoli wrth ddiffinio a chyflawni amcanion dylunio.

Nodweddion y rhaglen:

- Yn cyfuno agweddau cyfreithiol a rheoli ar gaffael, gyda ffocws unigryw ar agweddau dylunio.
- Yn seiliedig ar arbenigedd ymchwil o fri yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, ac yn cael ei gynnal gan awdur blaenllaw ac arbenigwr yn y maes.
- Mynd i'r afael â phynciau presennol o ddiddordeb allweddol i weithwyr proffesiynol adeiladu, gan gynnwys trefniadau caffael blaengar.
- Astudio tra byddwch yn gwneud gwaith ymarferol; caiff y cwrs hwn ei ddysgu drwy ddulliau dysgu o bell, gan gynnwys seminarau rheolaidd ar-lein, a chysiau byr ar leoliad, lle rhoddir pwyslais ar weithdai a gwaith grŵp.
- Manteision carfan fach, tiwtora unigol, ac amrywiaeth eang o siaradwyr arbenigol a phynciau dan sylw.
- Cewch eich cefnogi gan rwydwaith weithgar o gynfyfyrwyr.

Dyluniwyd y rhaglen i gael ei chynnal yn ystod cyflogaeth lawn amser, ac mae'n cael ei haddysgu drwy ddulliau dysgu cyfunol sy'n ddefnyddio'r rhyngwyd.

Mae'r cwrs yn agored i bob gweithiwr adeiladu proffesiynol sydd wedi graddio, a'r rhai sy'n ymwneud â chaffael a rheoli adeiladau (er enghraifft cleientiaid, penseiri, peirianwyr, syrfewyr a chontractwyr dylunio adeiladu a chontractwyr arbenigol). Disgwylir bod ganddynt sawl blwyddyn o brofiad yn y diwydiant, yn ogystal â chymhwyster sylfaenol mewn maes cysylltiedig. Bydd cwblhau'r cwrs hwn yn ehangu cyfleoedd gyrfa drwy alluogi gweithwyr proffesiynol cymwys yn y maes adeiladu i ddatblygu arbenigedd mewn rheoli dylunio.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i:

www.caerdydd.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/design-administration

Yn ogystal, cewch gyfeirio ymholiadau at Arweinydd y Rhaglen:
lupton@cardiff.ac.uk



Strwythur:

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys chwe modiwl
20 credyd a thraethawd hir.

ART207 - Cyd-destun Diwydiant - 20 credyd

ART209 - Gwasanaethau Proffesiynol -
20 credyd

ART208 - Contractau Adeiladu - 20 credyd

ART211 - Cyflawni Dylunio - 20 credyd

ART212 - Cyflawni Prosiect - 20 credyd

ART213 - Caffael Rhyngwladol - 20 credyd

ART214 - Traethawd Hir - 60 credyd

MSc Gwerthusiad Uwch o Berfformiad Adeiladau

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar ynni a pherfformiad amgylcheddol adeiladau sy'n bodoli'n barod, gan integreiddio ffactorau technegol a dynol. Mae'n ymateb i'r angen i wella ansawdd amgylcheddau ac, ar yr un pryd, lleihau'r ynni mae adeiladau yn ei ddefnyddio a'u hallyriadau carbon deuocsid.

Mae'r cwrs yn edrych ar werthuso perfformiad adeiladu mewn ffordd gyfannol, yn seiliedig ar ddulliau rhyngddisgyblaethol o wyddoniaeth bensaernïol i wyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau.

Mae'n datblygu gwybodaeth lefel uwch o ddulliau a thechnegau ymchwilio i gynnal ymarferion gwerthuso perfformiad, gan integreiddio agweddau technegol a dynol.

Mae'n ystyried y berthynas rhwng amodau amgylcheddol mewn adeiladau, boddhad defnyddwyr, eu cysur a'u lles, a'r defnydd o ynni. Mae'r cwrs yn annog myfyrwyr i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ymchwilio a mynd i'r afael â heriau perfformiad mewn adeiladau sy'n bodoli'n barod.

Nodweddion y rhaglen:

- Yn seiliedig ar arbenigedd rhyngwladol cydnabyddedig ar ynni, yr amgylchedd ac ymchwil technegol gymdeithasol yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru.
- Ar gael fel cymhwyster amser llawn dros dwy flyddyn, neu'n rhan-amser dros ddwy flynedd. Mae ymgeiswyr rhan-amser yn cael y dewis i gymryd modiwlau a rennir fel modiwlau dysgu o bell, fel mai dim ond ar gyfer sesiynau'r modiwlau arbenigol y bydd angen iddynt ddod i Gaerdydd.
- Yn integreiddio'r gwaith o gwerthuso perfformiad adeiladau gyda gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau i ymateb i heriau perfformiad adeiladau mewn ffordd aml-ddisgyblaethol a chyfannol.
- Ehangu gorwelion myfyrwyr drwy integreiddio ystyriaethau sy'n ymwneud ag ynni a nodau amgylcheddol gyda rhai sy'n ymwneud â boddhad defnyddwyr, eu cysur a'u lles.
- Defnydd o astudiaethau achos a phrosiect byw i ddatblygu gwybodaeth am lunio perfformiad amgylcheddol ac ynni.

I gael rhagor o wybodaeth:

Sylwer: Yn ddiweddar, mae enw'r cwrs hwn wedi newid o MSc Diagnosteg Adeiladu ar gyfer Perfformiad Amgylcheddol ac Ynni. Mae cynnwys y rhaglen yn aros yr un fath.

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a'r staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i: www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/building-diagnostics-for-energy-and-environmental-performance





Strwythur:

Mae ein modiwlau a addysgir yn helpu myfyrwyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o gyd-destun perfformiad adeiladu, ystyriaethau cynaliadwyedd mewn adeiladau sy'n bodoli'n barod, agweddau ar ynni a'r amgylchedd mewn adeiladau, damcaniaethau rhyngddisgyblaethol a dulliau i ymchwilio i adeiladau. Ffrwyth y rhaglen yw traethawd hir, lle gallwch ddilyn eich diddordebau academiaidd a phroffesiynol a gefnogir gan arbenigwyr yn y maes.

ART022 - Y Ddaear a Chymdeithas - **10 credyd**

ART035 - Adeiladau Carbon Isel - **10 credyd**

ART041 - Cysur yr Hinsawdd ac Ynni - **20 credyd**

ART049 - Ymchwil Gwyddoniaeth
Bensaernïol - **10 credyd**

ART101 - Safbwyntiau ar berfformiad -
20 credyd

ART102 - Pobl ac Adeiladau - **10 credyd**

ART103 - Offer a Thechnegau Monitro Uwch -
10 credyd

ART104 - Gwerthuso adeiladau gwag ar gyfer
eu rheoli'n gynaliadwy - **30 credyd**

ART099 - Traethawd Hir - **60 credyd**

MSc Dulliau Cyfrifiadurol mewn Pensaernïaeth

Mae'r cwrs hwn yn mynd i'r afael â'r galw am weithwyr creadigol proffesiynol sydd â sgiliau ym meysydd TG, saernïo digidol, meddalwedd efelychu, neu'r gallu i gynllunio dulliau datblygu meddalwedd penodol i ddatrys problemau dylunio unigryw.

Bydd ein dull amlddisgyblaethol yn rhoi gwybodaeth a sgiliau i fyfyrwyr fydd yn eu galluogi i ganfod dulliau cyfrifiadurol arloesol i'w defnyddio yn y diwydiannau creadigol a dylunio.

Mae'r rhaglen yn addas ar gyfer graddedigion mewn pensaernïaeth, yr amgylchedd adeiledig, peirianeg sifil, peirianeg bensaernïol a chyfrifiadureg, neu ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno datblygu arbenigedd mewn dulliau cyfrifiadurol mewn pensaernïaeth.

Nodweddion y rhaglen:

- Ar gael fel cwrs amser llawn dros flwyddyn neu gwrs rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Byddwch yn elwa ar arbenigedd amlddisgyblaethol gan staff ymchwil ar draws yr Ysgolion Pensaernïaeth, Cyfrifiadureg a Pheirianeg.
- Byddwch yn dysgu dulliau dylunio algorithmig arloesol ym maes pensaernïaeth.
- Byddwch yn datblygu eich offer digidol eich hunain drwy rhaglennu a sgriptio gweledol.
- Byddwch yn ennill profiad ymarferol gyda'n offer llunio digidol uwch mewnol, gan gynnwys braich robotig diwydiannol mawr.
- Byddwch yn cymryd rhan mewn gwaith tîm amlddisgyblaethol sy'n adlewyrchu ymarfer proffesiynol.
- Gallwch deilwra eich dysgu i'ch diddordebau a'ch anghenion eich hunain, a datblygu arbenigedd penodol drwy fodiwlau dewisol a phrosiect ymchwil gan y myfyriwr.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i:

www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/computational-methods-in-architecture





Strwythur:

Bydd myfyrwyr yn cymryd rhan mewn modiwlau craidd sy'n cyflwyno cysyniadau sylfaenol o ddulliau cyfrifiadurol a chyfres o fodiwlau uwch a fydd yn fodd o arbenigo mewn maes penodol. Mae'r rhaglen yn diweddgu gyda thraethawd hir a thraethawd myfyrion i'w ganlyn.

ART801 - Cyflwyniad i Fodelu 3D a Dylunio Paramedrig - **10 credyd**

ART802 - Dod o hyd i Ffurf Cyfrifiadurol - **20 credyd**

ART803 - Syniadau Dylunio Algorithmig - **30 credyd**

ART805 - Paratoi ar gyfer Ymchwil - **10 credyd**

CMT115 - Python ar gyfer Cyfrifiannu - **20 credyd**

ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - **10 credyd***

ART806 - Traethawd Hir: Dulliau Cyfrifiadurol mewn Pensaerniaeth - **60 credyd**

*Modiwlau dewisol yn amodol ar gadarnhad ar gyfer 2019/20

MSc Dylunio Adeiladau'n Amgylcheddol

(Lleol a dysgu o bell)

Mae'r rhaglen hon yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r gallu sydd eu hangen i ddylunio amgylcheddau iach a chyfforddus mewn ac o amgylch adeiladau sy'n rhoi ychydig iawn o straen ar adnoddau byd-eang.

Mae'r rhaglen yn paratoi myfyrwyr i ymgymryd â rôl dylunydd amgylcheddol mewn tîm adeilad a'r angen i addasu i alwadau newidiol wrth i bolisiau cynaliadwyedd gael eu cefnogi fwyfwy gan y cyhoedd a chan lywodraethau ledled y byd.



Bydd myfyrwyr yn ennill dealltwriaeth o egwyddorion a ffyrdd o gymhwyso'r pwnc. Mae'r testunau dan sylw yn cynnwys:

- Materion cyfredol sy'n wynebu cynllunwyr amgylcheddol, a sut gallai newid yn yr hinsawdd effeithio y proffesiwn.
- Safonau amgylcheddol - eu darogan, eu mesur a deddfwriaeth.
- Ffyrdd o gyflawni safonau uchel o berfformiad amgylcheddol.
- Materion ehangach y dylai dylunwyr amgylcheddol fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn ymarfer mewn ffordd gynaliadwy.

Nodweddion y rhaglen:

- Ar gael fel rhaglen amser llawn dros flwyddyn, 2 flynedd yn rhan-amser a dysgu o bell (1, 2 neu 3 blynedd).
- Wedi ei hachredu gan Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu, ac mae'n bodloni'r gofynion academiaidd ar gyfer y cofrestrriad proffesiynol CEng.
- Yn elwa ar fri rhyngwladol am arbenigedd dylunio ac ymchwil yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru.
- Rhaglen sefydlog, sy'n rhoi sylfaen ymarferol i weithwyr proffesiynol yr amgylchedd adeileddig ym mhwnc dylunio amgylcheddol ers 1993.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys dewisiadau astudio a manylion modiwlau, ewch i'n tudalennau gwe:

www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/environmental-design-of-buildings





Strwythur:

Darperir yr MSc Dylunio Adeiladu'n Amgylcheddol drwy gyfres o fodiwlau prosiect a rhai a addysgir, gyda thraethawd hir i'w canlyn.

ART022 - Y Ddaear a Chymdeithas - 10 credyd

ART028 - Dylunio Goddefol - 10 credyd

ART032 - Cymhwyso Dylunio Amgylcheddol - 10 credyd

ART034 - Arferion Dylunio Amgylcheddol - 40 credyd

ART035 - Adeiladau Carbon isel - 10 credyd

ART041 - Cysur yr Hinsawdd ac Ynni - 20 credyd

ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - 10 credyd

ART049 - Ymchwil i Wyddoniaeth Bensaernïol - 10 credyd

ART099 - Traethawd Hir - 60 credyd

MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy

Nod y cwrs hwn, sydd wedi ei achredu gan IHBC (Institute of Historic Building Conservation) a'i gymeradwyo gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain drwy gyfuno astudiaeth o gadwraeth treftadaeth gydag agweddau cynaliadwyedd.

Nod y rhaglen yw:

- Ehangu cyfleoedd gyrfa drwy alluogi penseiri cymwys a myfyrwyr o ddisgyblaethau arbenigol eraill i fagu arbenigedd ym maes cadwraeth, gan arwain at achrediad proffesiynol

Nodweddion y rhaglen:


- Ar gael fel rhaglen flwyddyn lawn amser neu raglen ran-amser 2 flynedd (addas ar gyfer y rhai a gyflogir mewn practisau)
- Mae'r rhaglen wedi ei chymeradwyo gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), ac wedi'i achredu gan y Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC). Mae cwblhau cwrs Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) ar gyfer penseiri cofrestredig RIBA a'r Bwrdd Cofrestru Penseiri yn eu cymhwyso i wneud cais i gofrestru ar 'y Gofrestr Gadwraeth' ar unwaith. Fel cwrs a gymeradwywyd gan RIBA, mae'n lleihau nifer y blynyddoedd sydd eu hangen i fod yn gymwys i wneud cais ar gyfer cofrestru fel 'Pensaer Cadwraeth Arbenigol' i bedair blynedd (o 5), a dwy flynedd (o 3) ar gyfer 'Pensaer Cadwraeth.' Mae cwblhau cwrs sydd wedi'i achredu gan Sefydliad Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol (IHBC) yn galluogi ymgeiswyr cymwys addas i gyflawni achrediad llawn gan y sefydliad mewn dwy flynedd yn hytrach na phum mlynedd.
- Mae myfyrwyr yn teithio i Rufain ar gyfer ymweliad dwys dros ddeuddydd, lle rydym yn cyfarfod â thiworiaid o ail lefel Gradd Meistr Rhyngwladol mewn Adfer Pensaernïol a Threftadaeth Ddiwylliannol ym Mhrifysgol Roma TRE. Mae teithio i Rufain, ffioedd mynediad a llety yn rhan o ffi'r cwrs.

- Ychwanegu at yr arbenigedd sydd gan fyfyrwyr ar hyn o bryd, a'u paratoi ar gyfer heriau proffesiynol critigol trwy ddatblygu sgiliau er mwyn mynnu ymatebion manwl a strategol i faterion cymhleth o ran cadwraeth adeiladau yng nghyd-destun agenda gynaliadwy
- Nod y cwrs hwn, sydd wedi ei achredu gan IHBC (Institute of Historic Building Conservation) ac wedi ei gymeradwyo gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), yw bod yn unigryw ymhlith ysgolion ym Mhrydain drwy gyfuno astudiaeth o gadwraeth treftadaeth gydag agweddau cynaliadwyedd. Cymryd cyfrifoldeb wrth wneud penderfyniadau rhesymegol mewn perthynas â materion cadwraeth amlochrog
- Defnyddio dulliau dysgu aildroddol sy'n seiliedig ar brosiectau, gan ddefnyddio astudiaethau achos er mwyn datblygu dealltwriaeth eglur o fframweithiau cyfreithiol perthnasol
- Galluogi myfyrwyr i ddatblygu safbwyntiau annibynnol o briodoldeb ynghylch ymatebion i'r amgylchedd adeiledig hanesyddol

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio ar gyfer graddedigion sydd â gradd gyntaf mewn maes cysylltiedig fel pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, arolygu, cynllunio, peirianeg neu adeiladu. Croesewir pobl hefyd a allai fod â phrofiad cyfatebol yn y diwydiant adeiladu neu rheoli treftadaeth.

I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a'r staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i: www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/sustainable-building-conservation



Strwythur:

Cyflwynir yr MSc Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy drwy gyfres o fodiwlau a addysgir gyda thraethawd hir ar y diwedd.

ART501 - Rôl Cadwraethwr - 20 credyd

ART502 - Offer dehongli - 20 credyd

ART503 - Defnyddio ynni mewn adeiladau hanesyddol - 20 credyd

ART504 - Astudiaethau achos a gwaith rhanbarthol - 40 credyd

ART505 - Offer dylunio: Dulliau atgyweirio - 20 credyd

ART506 - Traethawd hir - 60 credyd

MSc Mega-Adeiladau Cynaliadwy

Hyd at yn ddiweddar, roedd tyb y byddai adeiladau mawr yn defnyddio llawer o ynni ac na fyddai modd cwtogi arno trwy ddylunio pwrpasol. Fodd bynnag, mae hynny'n newid yn sgîl cenedlaeth newydd o fega-adeiladau sydd wedi'u dylunio gyda chynaliadwyedd ac arbed ynni'n brif feini prawf ar eu cyfer.

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar egwyddorion cynllunio a dylunio mega-adeiladau'n gynaliadwy, a'i nod yw paratoi myfyrwyr i ymateb i'r heriau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r adeiladau hyn. Bydd myfyrwyr yn dysgu sut mae ymaddasu yn ôl gofynion cyfnewidiol yn sgîl cefnogaeth gynyddol pobl a llywodraethau tuag at bolisïau cynaliadwy.



Nodweddion y rhaglen:

- Ar gael fel cwrs amser llawn dros flwyddyn neu gwrs rhan-amser dros ddwy flynedd.
- Mae'r cwrs wedi'i achredu gan y Cyngor ar Adeiladau Tall a Chynefinoedd Trefol (CTBUH) yn Sefydliad Technoleg Illinois yn Chicago, a Sefydliad Siartredig Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu (CIBSE), sy'n bodoli'r gofynion academiaidd ar gyfer cofrestrriad proffesiynol CEng.
- Yn cynnwys amrywiaeth o deithiau maes cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cynnig y cyfle i weld dylunio mega-adeiladau cynaliadwy ar waith.
- Yn cyflwyno ac yn adolygu'r dulliau dylunio diweddaraf ar gyfer mega-adeiladau cynaliadwy ym meysydd pensaernïol, peirianeg a chontractwyr adeiladu.
- Yn cynnig mynediad at offer a chyfleusterau eithriadol, fel cromen awyr artiffisial yr Ysgol.



I gael rhagor o wybodaeth:

www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/course/sustainable-megabuildings-msc



Strwythur:

Cyflwynir y radd MSc Mega-adeiladau Cynaliadwy drwy gyfres o fodiwlau addysgir a modiwlau sy'n seiliedig ar brosiect, gyda thraethawd hir ar y diwedd.

ART022 - Y Ddaear a Chymdeithas - **10 credyd**

ART035 - Adeiladau Carbon Isel - **10 credyd**

ART041 - Cysur yr Hinsawdd ac Ynni - **20 credyd**

ART042 - Ymchwilio i'r Amgylchedd Adeiledig - **10 credyd**

ART049 - Ymchwil i Wyddoniaeth Bensaernïol - **10 credyd**

ART627 - Trosolwg o Fega-adeiladau Cynaliadwy (Hinsawdd, Cyd-destun a'r Diwylliant) - **10 credyd**

ART628 - Systemau Gwasanaeth Cynaliadwy ar gyfer Mega-adeiladau - **20 credyd**

ART631 - Dylunio Mega-adeiladau Cynaliadwy (Prosiect Modiwl) - **30 o gredydau**

ART099 - Traethawd Hir - **60 credyd**

Dip.Ôl-radd mewn Pensaernïaeth Ymarfer Proffesiynol

Yn y rhaglen hon, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'r agweddau cyfreithiol ac economaidd ar ymarfer pensaernïol a chaffael gwaith adeiladu, a'r sgiliau perthnasol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer yn effeithiol wrth ddechrau ar yrfa ym maes pensaernïaeth.

Bwriad y rhaglen yw iddi fod y cymhwyster terfynol cyn cofrestru fel pensaer yn y Deyrnas Unedig.

Nodweddion y rhaglen:

- Ar gael fel llwybr carlam (wyth mis) neu gymhwyster 2 flynedd rhan-amser.
- Wedi ei rhagnodi gan y Bwrdd Cofrestru Penseiri mewn perthynas ag ymuno â'r gofrestr o benseiri, ac mae'n cael ei chadarnhau gan Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA) sy'n gyfwerth ag Arholiad RIBA mewn Ymarfer Proffesiynol (rhan 3).
- Yn cael ei rhedeg gan yr Athro Sarah Lupton, awdur blaenllaw ac arbenigwr yn y maes.
- Addysgu drwy ddysgu o bell a chysiau byr, gan gynnig y cyfle i astudio wrth i chi weithio yn y maes.
- Carfannau bach a thiwтора unigol.
- Yn cynnwys amrywiaeth eang o bynciau a siaradwyr arbenigol.
- Yn cael ei hasesu drwy amrywiaeth o aseiniadau ysgrifenedig; nid oes arholiadau.
- Cewch eich cefnogi gan rwydwaith weithgar o gynfyfyrwyr.

Bwriad y rhaglen yw i bobl ymgymryd â hi tra byddant yn gweithio'n amser llawn mewn practis pensaernïol neu sefydliad cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu.

Caiff y rhaglen ei haddysgu drwy ddulliau dysgu cyfunol gan ddefnyddio'r rhyngrwyd, a ategir gan gyrsiau byr ar y safle yng Nghaerdydd.

Cafodd y fersiwn o'r cwrs Diploma hwn, a gynhaliwyd yn ystod 2016/17, ei chanmol gan Fwrdd Ymweld Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA), a wnaeth ei chanmol am ei 'ehangder, dyfnder a chywirdeb.'



I gael rhagor o wybodaeth:

Am fanylion pellach ynghylch y rhaglen, gan gynnwys strwythur dosbarthiadau, rhagolygon gyrfa, ffioedd a chyllido, meini prawf derbyn, a staff sy'n rhedeg y rhaglen, ewch i:

www.cardiff.ac.uk/study/postgraduate/taught/courses/group/architecture-professional-practice

Yn ogystal, cewch gyfeirio ymholiadau at Arweinydd y Rhaglen: lupton@cardiff.ac.uk



Strwythur:

ART207 - Cyd-destun diwydiant - 20 credyd

ART208 - Contractau adeiladu - 20 credyd

ART209 - Gwasanaethau proffesiynol - 20 credyd

ART210 - Ymarfer proffesiynol - 60 credyd

Graddau Ymchwil Ôl-raddedig

Mae ein rhaglenni ymchwil MPhil a PhD ôl-raddedig yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr weithio'n agos gydag academyddion sy'n ymwneud â'u maes astudio. Rhoddir myfyrwyr wrth wraidd ein grwpiau ymchwil er mwyn amlhau i'r eithaf eu cysylltiad â'u maes pwnc a meithrin gwaith ar y cyd gydag ymchwilwyr eraill.



Mae'r Ysgol yn croesawu diddordeb gan bob math o ddarpar ymchwilwyr ôl-raddedig ac mae'n darparu amrywiaeth o gyfleusterau a chymorth.

Nod gradd ymchwil ôl-raddedig yw creu darn mawr o waith. Traethawd ymchwil yw hwn fel arfer, ond gall gynnwys cyfuniad o waith ysgrifenedig a dylunio, ac mae'n rhaid iddo gynnwys dulliau a chanlyniadau gwaith ymchwil systematig. Yn achos gradd PhD, rhaid i'r gwaith fod yn gyfraniad gwreiddiol at wybodaeth yn y maes astudio.

Mae gradd ymchwil yn cadarnhau bod ei deiliad wedi meithrin arbenigedd wrth ddatblygu a defnyddio dulliau ymchwil priodol ac wrth lunio casgliadau o'u canlyniadau. Mae'n hyfforddiant rhagorol i'r rhai hynny sy'n dymuno dilyn gyrfa mewn ymchwil ym maes addysg uwch, diwydiant neu ymgynghoriaeth broffesiynol. Mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio ar gyfer eu MPhil neu PhD fel cwrs amser llawn neu ran-amser.



Ein cyfleusterau

Yng nghanol y ddinas, yn swatio rhwng parciau a mannau gwyrdd, y mae Adeilad Bute, sef cartref Ysgol Pensaernïaeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o'n cyfleusterau yn yr adeilad hwn, gan gynnwys darlithfeydd, orielau arddangosfa, stiwdios a mannau addysgu eraill.

Yn ddiweddar, rydym wedi sefydlu ail gartref yn Friary House, sef lleoliad yng nghanol y ddinas o fewn pellter cerdded i adeilad Bute, gyda manau addysgu ac astudio hyblyg a modern. Mae ein graddau MA Dylunio Trefol, MSc Dyluniad Amgylcheddol Adeiladau ac MSc Mega-adeiladau Cynaliadwy wedi eu lleoli yma ar hyn o bryd, lle maent yn elwa ar le stiwdio a chyfleusterau TG penodol.



Yn ogystal, mae gennym le pwrpasol ar gyfer y radd MSc mewn Cadwraeth Adeiladau Cynaliadwy yn 2 Heol y Gogledd, rownd y gornel o Adeilad Bute.



Ymhlith y cyfleusterau sydd ar gael i fyfyrwyr ar draws rhaglenni, mae gan yr Ysgol ystafell TG ar gyfer addysgu dylunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD) a delweddu uwch. Mae gweithdy llawn yn darparu'r offer a'r arbenigedd sydd eu hangen ar fyfyrwyr i greu modelau, ynghyd â bwth chwistrellu wedi'i awyru, cyfleuster profi modelau, torrwr laser, braich robotig, argraffydd 3D a llwybrydd CNC. Mae ein labordy dylunio amgylcheddol, sy'n cynnwys cromen awyr artiffisial, yn un o'r cyfleusterau gorau o'i fath yn y Deyrnas Unedig.



Byw yng Nghaerdydd

Mae Caerdydd yn ddinas ddeniadol a llewyrchus a gydnabyddir yn eang fel lle gwyh i fyw ac astudio. Mae'n cyfuno holl fanteision dinas glos, gyfeillgar a rhad â chyfleusterau diwylliannol a hamdden prifddinas fodern.





"CAERDYDD YW UN O BRIFDDINASOEDD IFANCAF EWROP – MAE'N DDIGON BACH I FOD YN GYFEILLGAR, AC YN DDIGON MAWR I GYNNIG Y PETHAU GORAU AM FYW MEWN DINAS O BWYS."

Guardian University Guide 2017

Mae Caerdydd hefyd wedi ennill enw da fel **prifddinas chwaraeon** o ganlyniad i ansawdd y digwyddiadau a'r cyfleusterau sydd yma. P'un a hoffech chi wyllo neu chwarae, mae sawl stadiwm o'r radd flaenaf ar gyfer rygbi, pêl-droed, criced ac athletau, a'r **Pentref Chwaraeon Rhyngwladol**, canolfan sglefrio iâ a **Chanolfan Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd** o fewn tafliad carreg.

Mae gan Gaerdydd ddigon o gyfleusterau adloniant i ddiwallu anghenion myfyriwr. Mae lluo o gaffis, tafarndai a chlybiau nos yma. Mae'r ddinas yn gartref i **gwmni opera cenedlaethol** byd-enwog Cymru, ac mae ganddi leoliadau cyngerdd amrywiol fel **Canolfan Mileniwm Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru**, sawl theatr a **Chastell hanesyddol Caerdydd**.

Mae'r ddinas yn un o'r canolfannau siopa gorau yn y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys **canolfan Dewi Sant** ochr yn ochr â strydoedd siopa i gerddwyr yn unig, marchnadoedd a rhwydwaith ddifyr o arcedau to gwydr o'r cyfnodau **Fictoraidd ac Edwardaidd**.

Yn ogystal, mae gan Gaerdydd fwy o fannau gwydd trefol nag unrhyw ddinas arall yn y Deyrnas Unedig, ac mae cefn gwlad, yr arfordir a mynyddoedd o fewn cyrraedd hawdd.

Mae'r ddinas yn ffodus o'i **chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ardderchog** gyda threfi a dinasoedd mawr eraill Prydain. Mae'r prif orsafoedd bysiau a threnau mewn mannau canolog, ac mae Caerdydd hefyd yn ffodus o'i **faes awyr rhyngwladol**.

Bywiog, hardd, hyderus, cosmopolitaidd ac uchelgeisiol – dyna i chi'r geiriau a ddefnyddir yn fynych i ddisgrifio Caerdydd heddiw. Gyda'i gilydd, mae'r ddinas a'r Brifysgol yn rhoi 'Profiad Caerdydd' i fyfyrwyr, ac mae myfyrwyr yn cofio'r ffordd honno o fyw ymhell ar ôl graddio.

Meini prawf derbyn

Rhaglenni ôl-raddedig a addysgir

Mae meini prawf ar gyfer derbyn yn amrywio ar draws ein rhaglenni. Am fanylion, dylai ymgeiswyr gyfeirio at:

- Prosbectws Ôl-raddedigion Prifysgol Caerdydd 2019
www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate
- Rhestr Ysgol Pensaernïaeth Cymru o raglenni a disgrifwyr:
www.cardiff.ac.uk/cy/architecture

I fyfyrwyr rhyngwladol, ewch i dudalennau'r Brifysgol ar gyfer eich gwlad i gael rhagor o wybodaeth am raddau cyfatebol:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate

Mae'n rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf fodloni gofynion Saesneg y Brifysgol. Ar hyn o bryd, IELTS 6.5 yw sgôr ofynnol y Brifysgol.

Am ragor o wybodaeth am ein gofynion iaith Saesneg, neu brofion cyfatebol a sgoriau, ewch i:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sydd angen fisa Haen 4 i astudio yn y DU gyflwyno cymhwyster iaith Saesneg derbyniol er mwyn bodloni gofynion UKVI (Fisâu a Mewnfudo y DU)

I wneud cais am un o'n rhaglenni, dylech ddefnyddio gwasanaeth ceisiadau ar-lein y brifysgol, sy'n eich tywys drwy'r broses:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/applying

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein rhaglenni ôl-raddedig a addysgir, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'n Swyddog Ôl-raddedig a fydd yn fwy na pharod i'ch cynorthwyo.

ArchitectureAdmissions@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44 (0)29 2087 4430



Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig (PhD/MPhil)

Croesawn ymholiadau a cheisiadau gan unigolion cymwys addas – graddedigion sydd â gradd gyntaf dda fel arfer (2:1 neu gyfwerth fel arfer) sy'n dymuno gwneud gradd ymchwil ar draws sbectrwm eang o bynciau a dulliau sy'n ymwneud â phensaerniaeth a'r amgylchedd adeiledig.

Ein nod yw cefnogi diwylliant ymchwil traws-ddisgyblaethol ymresymiadol a bywiog o fewn yr ysgol, gyda thros 65 ymgeiswyr Doethurorol ar hyn o bryd yn cael eu goruchwyllo gan 29 o oruchwylwyr academiaidd. Mae'r amrywiaeth eang o bynciau y mae ein myfyrwyr yn eu hastudio yn adlewyrchu diddordebau amrywiol ein staff.

I ymgeisio am radd ymchwil, mae'n hanfodol amlinellu pwnc neu faes sydd o ddiddordeb i chi mewn cynnig ymchwil. Gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, ac os yw myfyrwyr yn llwyddiannus, gallant ddechrau astudio ar ddiwrnod cyntaf mis Hydref neu fis Ebrill.

Caiff pob cais ei ystyried ar sail teilyngdod unigol. Anogir ymgeiswyr i roi cymaint o wybodaeth a dogfennau ategol ag y bo modd (lle y gofynnir amdanynt) am eu cofnod academiaidd, profiad gwaith perthnasol a chymorth ariannol.

I fyfyrwyr rhyngwladol, ewch i dudalennau'r Brifysgol ar gyfer eich gwlad i gael rhagor o wybodaeth am raddau cyfatebol:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Mae'n rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf fodloni gofynion Saesneg y Brifysgol. Ar hyn o bryd, IELTS 6.5 yw sgôr ofynnol y Brifysgol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gofynion Saesneg, neu brofion a sgorau cyfatebol, ewch i **www.cardiff.ac.uk/cy/study/international**

Dylech wneud cais gan ddefnyddio Gwasanaeth Ceisiadau ar-lein y Brifysgol, a fydd yn eich arwain drwy'r broses. Mae'r gwasanaeth hwn, ynghyd â chanllawiau cyffredinol ar ofynion iaith Saesneg, ar gael yn:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate/applying

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am ein rhaglenni ymchwil ôl-raddedig, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'n Swyddog Gweithredol (Ymchwil) a fydd yn fwy na pharod i'ch cynorthwyo.

Katrina Lewis

Ebost: LewisK2@caerdydd.ac.uk

Ffôn: +44 29208 76251

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Caerdydd yn ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl arferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr.

Nod y Brifysgol yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu ymgeiswyr o bob oed, ethnigrwydd, anabledd, patrwm teuluol, rhywedd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, credoau crefyddol neu greddau eraill, a chefnidiroedd economaidd cymdeithasol, a sicrhau bod cyfle cyfartal iddynt.

Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sydd i'w weld ar: www.cardiff.ac.uk/cy/public-information

Ymgeiswyr ag Anableddau/Anghenion Arbennig

Ar sail teilyngdod academiaidd yn unig y gwneir pob cynnig i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd.

Pan fydd gan ymgeiswyr ofynion penodol sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr meddygol, fe'u hanogir i drafod y rhain gyda staff perthnasol er mwyn gallu gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd hygyrch. Yn benodol, gwahoddir ymgeiswyr i gysylltu â'r Cynghorydd Anabledd i gael gwybod am y drefn ymgeisio, cyflwyno'r cyrsiau a mynediad at yr amgylchedd ffisegol. Os bydd hi'n briodol, gellir trefnu ymweliadau anffurfiol er mwyn i ymgeiswyr allu gweld y llety a chyfarfod â'r staff academiaidd.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Cynghorwr Anabledd:

Ffôn: +44 (0)29 2087 4844

Ebost: disability@caerdydd.ac.uk

Ariannu eich astudiaethau

Mae sicrhau cyllid yn ystyriaeth bwysig i nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r ffynonellau cyllid yn hynod gystadleuol, felly mae'n hanfodol dechrau gwneud eich gwaith ymchwil i'r opsiynau ariannu cyn gynted ag y bo modd.

I gael y wybodaeth mwyaf diweddar am ffioedd, cyllid a'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ysgoloriaethau, ewch i wefan arian a ffioedd y Brifysgol:

www.cardiff.ac.uk/cy/postgraduate

Mae'r ysgoloriaethau sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig a addysgir ar hyn o bryd yn cynnwys Ysgoloriaethau Santander Prifysgol Caerdydd, Ysgoloriaethau Chevening ac ysgoloriaethau Prifysgol Fulbright-Cardiff:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/international

Gellir dod o hyd i wybodaeth am ffioedd i fyfyrwyr y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a rhyngwladol ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig ar wefan y Brifysgol:

www.cardiff.ac.uk/cy/study/postgraduate

Telerau ac Amodau

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn gywir pan aeth i'r wasg. Fodd bynnag, nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw wallau a allai fod ynddo, neu am unrhyw newidiadau dilynol i bolisi'r Brifysgol neu Lywodraeth a allai effeithio ar yr wybodaeth a roddir. Mae Prifysgol Caerdydd yn eithrio unrhyw sylwadau neu warantau yn benodol (boed wedi'u mynegi neu eu hawgrymu), yn ogystal â phob atebolrwydd gan gynnwys niwed uniongyrchol, anuniongyrchol, arbennig, cysylltiedig neu ganlyniadol sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth ar y tudalennau hyn, hyd at y graddau eithaf sy'n bosibl o dan y gyfraith.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Tystysgrif FSC



Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur a gafwyd o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy, a defnyddiwyd inciau a gafwyd o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®. Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn gellir ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell gyrfaoedd i eraill ei ddefnyddio. Diolch.

Gellir trefnu i'r ddogfen hon fod ar gael mewn print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD hefyd.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â:

Laura Roberts

ffôn: + 44 (0)29 2087 4455

ebost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Ysgol Pensaernïaeth Cymru, ewch i'n gwefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/architecture

Ymholiadau

Ffôn: +44 (0)29 2087 4023

Ebost: architectureadmissions@caerdydd.ac.uk

Ysgol Pensaernïaeth Cymru

Prifysgol Caerdydd

Adeilad Bute

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd, CF10 3NB

Cadw mewn Cysylltiad

/welshschoolofarchitecture

@WSofArchi

